

# Tinsel A'r TARDIS!



Roedd ein cyngherddau Nadolig eleni yn mynd ar daith o amgylch y byd ac yn ôl trwy hanes. Fe aethon ni i Fethlehem a'r Nadolig cyntaf a geni'r Iesu gyda'r Meithrin a'r Derbyn; aeth Blynyddoedd 1 a 2 â ni ar drip yn y TARDIS i weld sut mae'r byd yn dathlu'r Nadolig; Gwasanaeth Nadolig oedd i blant Cyfnod Allweddol Dau eleni - fe glywson ni am Charles Dickens a Nadolig Oes Victoria o Flwyddyn 3, Nadolig o gwmpas y byd o Flwyddyn 4; stori geni Iesu Grist o

Flwyddyn 5 ac fe glywson ni am stori Tawel Nos, a Ffositydd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914 gyda stori y Goeden Nadolig o Flwyddyn 6.

Yn ychwanegol i hyn roedd barddoniaeth yn Gymraeg a Saesneg, canu, dawnsio a chanu carolau a deuawd pres.

Rydyn ni i gyd yn barod am hwyl yr Wyl erbyn hyn!

# Croeso nôl

Croeso nôl i ddiwedd y tymor cyntaf.

Mae hi wedi bod yn dymor prysur dros ben. Nid yn unig mae Blynyddoedd 5 a 6 wedi bod i Langrannog a Gilwern, rydyn ni wedi cael wythnos aml-ddiwylliannol ond yn ogystal â pharatoi at yr amser YNA o'r flwyddyn! I ddechrau, gadewch i ni groesawu ein haelodau newydd o staff. Mr Zak Williams ym Mlwyddyn 5, Miss Nicole Williams ym Mlwyddyn 1 yn ogystal â chynorthwyr newydd: Miss Fiona Tapp ym Mlwyddyn 2, Miss Ann Sneddon yn y Derbyn a Miss Angharad Davies yng Nghyfnod Allweddol Dau. Nadolig Llawen i chi gyd.

## Wythnos Aml-ddiwylliannol

Yn yr wythnos cyn yr hanner tymor, i ddathlu'r ffaith ein bod ni'n byw mewn cymuned aml-ddiwylliannol, fe aeth pob blwyddyn ati i astudio glwad a diwylliant arbennig.

Edrychodd y Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 ar wledydd Affrica, Blynyddoedd 2 a 3 ar wledydd Asia a blynyddoedd 4, 5 a 6 ar wledydd y Caribi. Roedd aroglau persawrus yn hedfan i lawr y coridorau ac roedd Celf penigamp yn cael ei wneud o amgylch yr ysgol!



## Plant Mewn Angen!

Eleni roedd ein hysgol yn llawn smotiau a streipiau heblaw am y llwyth o glustiau Pudsey! Fe godon ni £291.26! Diolch am eich cefnogaeth!



BBC

Plant Mewn Angen  
Children in Need

© BBC 2007 Rhif Eleni/Reg. charity no. 802052

## Ffair Nadolig

Am wled i'r synhwyrâu! Roedd y côr yn cynhyrchu seiniau Nadoligaidd, roedd nifer o weithgareddau a stondinau a llawer o losin, bwyd a diodydd! Erbyn y diwedd codwyd dros £2000!!! Diolch i'r CRhA ac i bawb a ddaeth i gefnogi.



## Menter Casnewydd

Cafodd y côr wahoddiad i berfformio yng nghyfarfod blynyddol Menter Casnewydd. Siaradwr y noson oedd Christine James, yr Arch-Dderwydd. Fe ganodd y côr yn swynol iawn. Diolch i Mrs Parry a Miss Lotwick am yr holl ymarferion yn ystod eu hamser cinio.



## Hwyl yn yr Hydref!

Meithrin

Y tymor yma rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn y Meithrin yn dysgu am yr Hydref. Aethon ni am dro i'r Waun Wylt i ddarganfod dail o wahanol maint a lliw. Gwnaethon ni golaj o ddraenog gan ddefnyddio dail amryliw a rhwbiadau o boncyff. Rydyn ni wrth ein bodd yn dysgu y tu allan!



## Maip Meddyliol!

Derbyn

Roedd y dosbarth Derbyn wedi bod yn brysur iawn yn ystod Tymor Yr Hydref yn dysgu'r stori Y Feipen Enfawr. Cyd-weithion i dynnu a thynnu a thynnu'r feipen allan o'r ddaear! Cafon ni llawer o hwyl yn actio'r stori, gwneud wynebaw doniol allan o lysiau, creu mygydau, tyfu berwr dŵr, gwneud i'r feipen 'POP', peintio lluniau o'r anifeiliaid a chreu cwt i'r anifeiliaid gyda llifau a phren.



## Gwreichion gwyh!

Blwyddyn 1

Cofiwch y bumed o Dachwedd! Ni fydd disgyblion Blwyddyn 1 yn anghofio'r diwrnod anghredadwy yma ar frys. Er mwyn ysgogi'r disgyblion rhoddwyd flas iddynt o sut mae rhai pobl yn dathlu noson tân gwyllt. Roedd yna wled o weithgareddau i'w sbarduno megis creu darlun tân gwyllt gan ddefnyddio paent, sialc a gliter, dylunio ffon wreichion ei hun a llenwi Guto Ffowc gyda deunyddiau amrywiol. Yn ogystal â hyn cafwyd y cyfle i flasu cŵn poeth a siocled poeth a. I gwblhau'r diwrnod eisteddon i wyllo'r tân gwyllt gan atgoffa'n hunain o'r rheolau pwysig.



## Hud a lledrith!!

Blwyddyn 2

Ar ddydd Llun 18fed o Dachwedd digwyddodd rhywbeth wnaeth ysgwyd pawb ym mlwyddyn 2. Cafodd y plant wybod fod RHYWUN neu RHYWBETH wedi bod yn yr ardal ganol. Aeth plant dewr blwyddyn 2 ati'n syth i chwilio am gliwiau'r digwyddiad. Ar ôl dod o hyd i ruban, ffon hud, ysgub, llysnafedd porffor ac olion traed amrywaieth o anifeiliaid, aeth y plant ati i ysgrifennu erthyglon bywiog a difyr oedd yn cynnig esboniad i'r hyn a achosodd hyn i ddigwydd.



## Dathlu Diwlai!

Blwyddyn 3

Roedd Blwyddyn 3 wedi mwynhau dysgu am wlad India yn ystod wythnos aml-ddiwylliannol. Roedd y plant wedi dysgu am draddodiadau Diwali sef gwyl goleuni Hindwiaeth. Cafodd y plant llawer o hwyl yn creu Divas a phatrymau Rangoli lliwgar.



Hefyd, yn ystod yr wythnos diwethaf, cafodd Blwyddyn 3 y cyfle i blannu cenyn yr un yn ein gardd Rhufeinig.



## Achubwyr y Byd

Blwyddyn 4

Wrth astudio ein prosiect 'Parchu ein Byd', mae Blwyddyn 4 wedi cael nifer o gyfleoedd gwych! Rydyn ni wedi bod ar Ddiwrnod Eco ym Mharc Tredegar gan ddysgu am (a chyffwrdd) anifeiliaid gwylt ; aethon ni i Wastesavers i weld beth sy'n digwydd i'n biniau glas a gwyrrd wedi i'r lorïau eu casglu; rydyn ni wedi astudio pa mor bwysig a bregus yw ein byd yng Ngwyddoniaeth gan edrych ar sut mae defnyddiau yn dirywio, a mynd ar daith sbwriel o amgylch yr ysgol. Rydyn ni wedi bod ar Ras Falwnau o amgylch y byd, wedi ysgrifennu llythyr at 'Mother Earth', dyddiadur y Paperbag Prince ac hyd yn oed wedi mynd nôl i Oes y Stiwardiaid i ddysgu am y Pla Mawr a Guto Ffowc. Waw! Dyna brysur!



## Mathemateg Hudol!

Blwyddyn 5

Mae Blwyddyn 5 wedi mwynhau gwneud mathemateg hudol eleni! Tybed os ydych chi'n gwybod sut i greu cylch sydd yn gallu amgylchynu 13 plentyn gan ddefnyddio dim ond un darn o A4 a siswrn... Wel, mae Blwyddyn 5 yn gwybod, a dyma'r dystiolaeth!



## ROALD DAHL RHYFEDDOL!

Blwyddyn 6

Ydych chi wedi clywed am yr awdur "gobbletastic" or enw Roald Dahl? Mae ei lyfrau ddychmygol yn adloni plant ar draws y byd i gyd. Fel rhan o project saesneg, rydyn ni wedi bod yn astudio y ffordd anghygoel mae Roald Dahl yn ysgrifennu. Roedd pawb wedi mwynhau y ffaith ein bod yn gallu camsillafu a chreu brawddegau doedd ddim yn gwneud unrhyw synnwyrr! Dyma rhai enghreifftiau i chi ddarllen. "I is fleeping in bed when I Ake up and find my self in space. I float over to mars bar and take a big chomp with me trogger chompers, mmmm very ice DELICIOUS! I bounce over to milky way and slirp me way through to a whole different galaxy and zis galaxy is scrumfizzabombom.i enjoyen very mutch. " "I is waiting for me Friend to come to mr birthday party but then i realized that i sent adressto the zoo and my party is fancy dress.the zoo keeper thought they were animals so he pyt them in the zoo." A ddealloch chi hynny? Efallai fe fyddwch chi eisiau darllen llyfrau hudol Roald Dahl rhyw ddydd. Pwy a wyr?



## Gilwern

Yn ystod 21<sup>ain</sup> - 25<sup>ain</sup> Hydref fe aeth Blwyddyn 6 i Gilwern. Yno fe ymlacion nhw wrth gerdded trwy'r afon, kayakio a dringo creigiau! Roedden nhw'n wych yn herio'u hunain a helpu'i gilydd.!



## Llangrannog

Yn ystod y penwythnos 22 - 24<sup>ain</sup> Tachwedd, fe aeth Blwyddyn 5 (a nifer o athrawon) i wersyll yr Urdd, Llangrannog. Am amser gwych! Fe aethon nhw i ferlota, beicio a nifer o weithgareddau eraill!



## Llwyddiannau ein Gerddi!

Eleni rydyn ni wedi cael llwyddiant mewn dau wobwr gwahanol. Fe enillon ni gategori ysgolion ar gyfer cystadleuaeth Gwent Best Kept Village a gafodd ei drefnu gan Gwent Association of Voluntary Organisations. Daethon ni'n ail yng nghystadleuaeth Newport in Bloom ar gyfer ein Gardd Fwthyn ac fe enillodd pedwar o'n disgyblion gwobrwyon am eu gwaith Celf: Morgana Davies (Blwyddyn 6), Isobel Lewis (Blwyddyn 2), Fergus Fulton (Blwyddyn 2) a Leah Dunn (Blwyddyn 4). Yn ogystal â hyn fe gafodd ein gwirfoddolwr gwych a phrif garddwr Blwyddyn 6, Mr Ron Comfort, wobwr y Cadeirydd am yr holl waith mae e'n ei wneud drosom. **DIOLCH YFAWR, MR COMFORT!**



## Newyddion Mabwysiadu

Yng Ngorffennaf, daeth Blwyddyn 5 (Blwyddyn 6 nawr) i fod yn entrepreneurwyr. Wrth ddysgu am drafferth y coed glaw trofannol yn Borneo a bywydau caled Hen Ŵr y Coed, fe aethon nhw mewn i grwpiau masnach a chreadigol i gynhyrchu nwyddau i werthu i'r ysgol ar eu diwrnod Oren. Wel, fe wnaethon nhw'n wych oherwydd fe godon nhw dros £300!!! Rydyn ni wedi gallu mabwysiadu Gellison, Chiquitta a Bella - 3 Hen Ŵr y Coed am y flwyddyn!



Diolch unwaith eto i'r CRhA am drefnu y Ffair Nadolig a'r gweithgareddau amrywiol yn ystod y tymor. Os oes gan unrhywun ddi-ddordeb i fod yn aelod o'r CRhA mae yna ffurflenni cofrestrï ar gael yn y swyddfa. Cofiwch fod yr holl arian a godwyd yn mynd tuag at addysg eich plant!!

Cofiwch bod yna ysgol i'ch plant ar y 6ed o Ionawr.

# Cornel y Campau

## Llwyddiant Urdd!



Am ystod eang o chwaraeon sy'n cael eu dathlu y tymor yma! I ddechrau gyda'r tîm Gymnasteg sydd wedi bod yn ymarfer yn ystod eu hamser cinio ac ar ôl ysgol. Fe enillon nhw'r gystadleuaeth yr Urdd yn Ysgol Cwm Rhymni ar y 6<sup>ed</sup> o Rhagfyr. Nawr mae rhaid iddyn nhw baratoi ar gyfer y gystadleuaeth Cenedlaethol a fydd yn Abersystwyth yn Chwefror. Pob hwyl i'r tîm!

Fe chwaraeodd y tîm rygbi yn nhw'rnament yr Urdd ar 28ain o Dachwedd. Fe gollon nhw i Ysgol Gymraeg Caerffili yn y rownd cyn-terfynol ond fe guro'n nhw Ysgol Trelyn i ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth. Ar yr un diwrnod roedd twrnament pêl-rwyd yr Urdd. Er i'r tim mwynhau eu diwrnod yn fawr, ni gyrhaeddon nhw'r rowndiau terfynol. Llongyfarchiadau i George Ovey, Ieuan Hancock, Owain Jones, Rocky-Jay a

Thomas Rist am gael eu dewis i chwarae i dîm District Casnewydd. Hefyd llongyfarchiadau i Amy Rose Shutt am fod yn bencampwraig ysgolion Cymru ar y trampoline, a hynny o dan 11 oed! Mae yna mwy o glybiau chwaraeon i ychwanegu at y rhestr faith y tymor hwn: mae gan Flwyddyn 2 glwb sgiliau pêl ac mae Blynnyddoedd 5 a 6 wedi dechrau clwb Zumba yn ystod amser cinio. Rydyn ni'n ysgol prysur tu hwnt!

### Clybiau y tymor hwn - Amser Cinio ac ar ôl ysgol

Diolch i Mr Mark Taylor am gydlynnu'r chwaraeon a'r Addysg Gorfforol ac am drefnu twrnamentiau a chystadleuthau yn ystod y flwyddyn. Diolch hefyd i Miss Sioned Williams - Clwb Dawnsio Disgo, Miss Catrin Davies - Clwb pêl-rwyd (Adran Iau), Miss Nicole Williams - Clwb pêl-rwyd(babanod), Mr Zak Williams - Clwb pêl-droed Miss Catrin Leyshon - Zumba. Mrs Ceri Parry, Miss Iona Lotwick, Miss Rhiannon Pugh, Miss Beth Thomas, Miss Catrin Leyshon and Mrs Rhian Evans - Côr. Athrawon Bl 1+ 2 - Clwb rhedeg. Hefyd diolch i bob aelod o'r staff dysgu a Miss Bethan Lloyd a Miss Sophie Harding sy'n helpu yng Nghlwb y Ddraig.

Cofiwch bod ysgol i'r disgyblion ar y 6ed o Ionawr.